# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes a drwy Zoom
**Nos Iau 24 Mai 2024 am 7 o'r gloch**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. E Mary Jones.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyng. Rheinallt Puw, Linda Brown, Catrin Wager, Dyfrig Jones a Bleddyn Williams.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim.

**3. Materion Brys**
**Diffyg Plismona** - Adroddodd y Clerc fod diffyg plismona yn broblem ym Methesda yn y ddau fis diwethaf. Nododd ei bod wedi cysylltu gyda'r cynghorwyr lleol i nodi pryderon am y mater. Cytunwyd bydd y Clerc yn ysgrifennu llythyr o gŵyn at Ian Roberts, Prif Arolygydd Gogledd Gwynedd.
**Datblygiad Cae Gas** – Adroddwyd fod y gwaith adeiladu wedi oedi ers rhai wythnosau, y Clerc i gysylltu â'r contractwr i holi beth sydd yn mynd ymlaen.
**Carnifal Bethesda -** Cynhaliwyd y Carnifal ar ddydd Sadwrn, 18fed o Fai, a braf oedd gweld y Stryd Fawr yn orlawn. Hoffai'r Cyngor Cymuned longyfarch y pwyllgor ar ei llwyddiant a diolch am eu gwaith caled.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2024.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Maes parcio ger y Sior, Carneddi - Cais i ail beintio'r llinellau -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd ail beintio'r llinellau. Nodwyd y Cyng. Einir Williams ei bod wedi cysylltu

hefo Cyngor Gwynedd aml waith, a'u bod angen gwirio perchnogaeth y maes parcio hwn – ar y gweill.
**5.2 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, nid yw'r les presennol yn addas. Adroddwyd fod y Clerc wedi cael sgwrs gyda'r tirfeddiannwr a chytunwyd y byddent yn creu les newydd.
**5.3 Cabinet yng Nghorffwysfan –**Y Clerc i drefnu sesiwn i fynd drwy'r dogfennau yng Nghorffwysfan ac i gael gwared ar y cabinet – ar y gweill.
**5.4 Glanhau'r Gofeb** - Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn manylion elusen o Berkshire sydd yn gwneud y math yma o waith am ddim - y Clerc wedi trefnu i'r elusen dod draw i lanhau yn yr wythnosau nesaf - ar y gweill.

**6. Archwiliad Mewnol Cyfrifon 2023-24**
Derbyniwyd yr adroddiad ac i ymrwymo i roi sylw i'r risgiau nodwyd a chymeryd y camau priodol i'w liniaru.

**7. Ffurflen Flynyddol 2023-24**
Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

**8. Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn**
Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd bydd y Clerc yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o osod cysgodfan bws ger Maes Bleddyn. Y Clerc i gael trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd fod y Clerc wedi bod mewn cyswllt hefo cyfreithiwr ar ran y Cyngor, ac wedi cyfarwyddo nhw i gysylltu gyda chyfreithiwr y tir feddiannwr – ar y gweill.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mai 2024'
**10.1** Cyngor Tref Nefyn/Cyngor Gwynedd – Ceir Trydan – Penderfynwyd ail gyflwyno'r dogfennau yma yn y cyfarfod nesaf.
**10.2** Emyr Roberts - Gardd Capel Jerusalem - Y Clerc i ymateb i egluro mai tir y Capel yw'r ardd, nid Cyngor Gwynedd.
**10.3** Chris Roberts, GwyrddNi – Llys Dafydd – Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd treialu cadw'r giatiau yn agored trwy'r adeg. Penderfynwyd cadw'r polion yn y canol, ac i drafod lleoliad gwahanol ar gyfer y wal flodau. Y Clerc i edrych ar newid y tap dŵr.

**11. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C23/0207/13/CR**
Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda
Addasiadau mewnol
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0969/13/LL**
Natwest Bank, 13 Stryd Fawr, Bethesda
Addasu'n fewnol adeilad presennol o ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 3 fflat preswyl i ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 6 fflat preswyl.

**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0138/13/LL**
1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan

Codi annedd deuluol
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0252/13/LL**
Llys Dafydd, Stryd Fawr, Bethesda

Gosod mainc ddur a bwrdd dehongli
**Penderfyniad:** Cefnogi

**<u>Ceisiadau</u>**

C24/0390/13/AC
Spar Stores Stryd Fawr, Bethesda

Diwygiad i amod 2 o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu man manwerthu a chanolfan dreftadaeth i ailddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr, er galluogi newidiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd i gynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer a phaneli ffotofoltaig, ac ychwanegu mwy o reiliau diogelwch.
**Penderfyniad:** Cefnogi

**12. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| John Wyn Jones | Cyflog Ebrill | £364.00 |
| CThEM | TWE Ebrill | £91.00 |
| C L Jones | Cynnal a chadw Llys Dafydd | £104.82 |
| C L Jones | Cynnal a chadw Llys Dafydd | £76.01 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £48.07 |

**13. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Cadeirydd newydd y Cyngor
- Cysgodfan Bws Maes Bleddyn
- Diffyg Plismona ym Methesda
- Llongyfarch Pwyllgor Carnifal Bethesda